

## Taflen Waith: Dorothy Fleming: **Bywyd yn Fienna, Awstria ym 1938**



Dinasyddion Awstria yn ymgasglu yn Heldenplatz yn Fienna i wrando ar ddatganiad Hitler o'r *Anschluss*, 15 Mawrth, 1938.

Delwedd: Wikimedia Commons.  
Awdur y ddelwedd: Heinrich Hoffmann.  
Dogfen wreiddiol yn cael ei gadw gan USA National Archive yn Washington, D.C.  
Mae'r gwaith hwn yn y parh cyhoeddus.

Ar ôl mis Mawrth 1938, gwaethygodd pethau'n gyflym. Erbyn mis Tachwedd 1938, nid oedd plant Iddewig yn cael mynd i'r ysgol gyda phlant nad oeddent yn Iddewon ac erbyn Mehefin 1942, nid oeddent yn cael mynd i'r ysgol o gwbl.

Rhai o'r deddfau gwrth-Iddewig a orfodwyd ar Dorothy a'i theulu ym mis Mawrth 1938:

- Mae pobl Iddewig yn colli eu hawliau fel dinasyddion yr Almaen / Awstria.
- Ni chaniateir i bobl Iddewig fod yn aelodau o glybiau chwaraeon.
- Ni chaniateir i bobl Iddewig briodi pobl sydd ddim yn Iddewon.
- Ni chaniateir i bobl Iddewig weithio i'r llywodraeth.

Ymhen amser, ni allai pobl Iddewig fynd i'r sinema, gyrru car, prynu cylchgrawn, gwrandao ar y radio, aros allan yn hwyr neu hyd yn oed fod yn berchen ar fusnes.

Gellid eu gorfodi i adael eu cartrefi ar unrhyw adeg ac roedd yn rhaid iddynt wisgo seren felen ar eu dillad, fel bod pobl yn gwybod eu hunaniaeth. Roedd yn amser dychrynlyd a pheryglus.

**TASG:** Cwblhewch y blychau isod i ddisgrifio rhai o'r newidiadau a wynebodd Dorothy a'i theulu. Defnyddiwch y wybodaeth a ddarperir yn y testun a'r hyn a glywsoch yn hanes llafar Dorothy.

Newidiadau ym mywyd y cartref:

Newidiadau ym mywyd yr ysgol:

Newidiadau ymhlith ei chyd-ddisgyblion:

Newidiadau i weithgareddau hamdden: